O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2164 (Cy. 231)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffyrdd yr A449 a'r A40 (Brynbuga i Raglan, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *31 Awst 2011* |
| *Yn dod i rym* | *12 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A449/A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd" neu "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd neu'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno neu arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A449 a'r A40 (Brynbuga i Raglan, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 12 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" *("the lengths of the trunk roads")* yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A449 a'r A40 rhwng Brynbuga a Rhaglan yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 31 Awst 2011

***GARETH MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd ar yr A449 wrth Gyfnewidfa Brynbuga.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r de ar yr A449 wrth Gyfnewidfa Brynbuga.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd ar yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r de ar yr A40/A449 wrth Gyfnewidfa Rhaglan.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o gefnffyrdd yr A449 a'r A40 sy'n ymestyn o bwynt 40 o fetrau i'r de o danbont Llanllywel hyd at bwynt 25 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt tanbont Tal-y-fan.

### ATODLEN 3
### Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o gefnffyrdd yr A449 a'r A40 sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt trosbont Great House i bwynt 300 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt trosbont The Elms.